

diarforgwyr unochrog:
rhai sydd am gael gwared
o Trident a pheidio â chael
dim byd yn ei le.

diarfogwyr amlochrog:
rhai sydd am gael gwared
o Trident ar ôl gwario
£167 biliwn ar olynydd iddo.

Dim Hawl i Fentro â'r Perygl o Ddifodiant Niwclear

70 mlynedd yn ôl, cafodd Ysgrifennydd Tramor y blaid Lafur, Ernest Bevin, y golau gwyrdd ar gyfer arfau niwclear Prydeinig.

Gan gyrraedd yn hwyr i gyfarfod yn Downing Street, dywedodd: 'We have got to have this thing over here whatever it costs. We've got to have the bloody union jack flying on top of it.'

Dyna'r union fath o rwysg cenedlaethol rhodresgar sydd wedi cadw Prydain yn wladwriaeth niwclear byth er hynny. Tecach dweud 'Lloegr', efallai, gan fod yr Alban yn wahanol iawn.

Roedd gwrthwynebwyr Jeremy Corbyn yn syfrdan pan ddywedodd na fyddai'n fodlon pwysu'r botwm.

Ond roedd llawer wrth eu bodd. O'r diwedd, Prif Weinidog posibl na fyddai'n fodlon cyflawni llofruddiaeth dorfol a thrwy hynny gychwyn rhyfel byd-eang yn ôl pob tebyg.

Mae arfau niwclear yn arwain at anniogelwch, nid diogelwch. Ni fyddai chwythu stryd gyfan i'r entychion er mwyn eich diogelu'ch hun yn erbyn lladron yn gwneud unrhyw synnwyr.

Amser maith yn ôl, cafodd pobl Sweden drafodaeth genedlaethol gall a phenderfynu peidio â dilyn y llwybr niwclear. Ond does ganddyn nhw mo'r rhith-dybiaeth o fawredd sydd gan y wladwriaeth Brydeinig.

Dydy arfau niwclear ddim yn fygythiad sy'n mynd i atal grwpiau fel Isis, sy'n hunanladdol, p'run bynnag, neu grwpiau eraill o derfysgwyr heb diriogaeth y gellid

taro'n ôl yn ei herbyn. Dylai'r rhestr hir o ddamweinau agos at fod yn angheuol, sy'n digwydd bron bob blwyddyn, achosi i hyd yn oed y mwyaf rhyfelgar oedi a meddwl.

Robert McNamara, un o uwch swyddogion yr Unol Daleithau, a ddywedodd ychydig cyn iddo farw, nad synnwyr da a oedd wedi ein hachub, ond 'lwc dda'.

O safbwynt cwbl ymarferol, does gan Brydain ddim arfau niwclear annibynnol, p'run bynnag. Pe bai'r Unol Daleithiau yn penderfynu gwrthod rhentu i ni eu taflegrau nhw, sy'n cludo ein hergydion niwclear, dyna ben ar ein system 'annibynnol'.

Mae'n hen bryd bod yn synhwyrol, a gweithredu â'r 'ewylls da' y mae'r

Cytundeb Atal Ymlediad, a arwyddwyd fwy na hanner canrif yn ôl, yn ei fynnu gennym.

Mae yna ffyrdd callach o wario'r £100 biliwn (o leiaf) y bydd cenhedlaeth newydd o arfau niwclear yn ei gostio. Gellid yn hytrach ei wario ar anghenion gwirioneddol pobl, yma ac mewn gwledydd tramor: iechyd, bwyd, tai ac amddiffynfeydd yn erbyn llifogydd, i ddechrau.

Ni oedd y drydedd wladwriaeth i 'fynd yn niwclear'. Rydym ni, â'n sedd barhaol ar Gyngor Diogelwch y CU, mewn safle gwyb i ennyn trafodaeth fwy synhwyrol ynglŷn â diogelwch cenedlaethol a rhyngwladol.

Does neb ohonom yn mynd i fyw am byth. Ond tra bôm yma, does gennym ni ddim hawl bygwth troi'r byd bendigedig hwn yn chwalfa a lludw.

Bruce Kent



TRIDENT

Mehefin y 15^{fed} – Diwrnod Gweithredu Cymru Trident Ploughshares

Mae cynlluniau llywodraeth San Steffan i olynu a diweddaru system arfau niwclear Prydain yn parhau ar garlam. Felly hefyd y cynlluniau i sicrhau bod ein lleisiau ni'r gwrthwynebwyr yn cael eu clywed.

Byddai llawer o'r gwaith ar system newydd i gymryd lle Trident yn cael ei wneud yn SAA (Sefydliad Arfau Atomig) Burghfield ger Reading yn Berkshire lle mae ergydion niwclear yn cael eu cydosod yn derfynol a'u cynnal a'u cadw ar hyn o bryd. Mae'r amcangyfrif cyfredol o gost olynu Trident a rhedeg y system newydd yn fwy na £167 biliwn.

Mae Trident Ploughshares yn gofyn i brotestwyr dreulio o leiaf un diwrnod ym mis Mehefin yn SAA Burghfield er mwyn tarfu ar ei 'fusnes arferol' anghyfreithlon ac anfoesol. Gwneir y cysylltiadau rhwng llymder a thoriadau'r llywodraeth ac arfau niwclear a newid yn yr hinsawdd. Bydd gweithredwyr hefyd yn tanlinellu methiant llywodraeth San Steffan i ufuddhau i'w rhwymedigaethau o dan Gytundeb 1970 i Atal Ymlediad Arfau Niwclear (CAY). Fel llofnodwr, mae'r llywodraeth wedi cytuno i weithio tuag at ddileu arfogaeth niwclear Prydain unwaith ac am byth.



Bydd y Mis o Weithredu yn anfon neges at y byd mai gwario ar heddwch a datblygiad a diwallu anghenion gwirioneddol pobl yw ein blaenoriaeth, nid gwario ar arfau dinistr torfol.

Er mai Mehefin y 15fed yw Dydd Gweithredu Cymru, croeso i chi gymryd rhan ar unrwydd diwrnod arall. Dewch yno, da chi – fe fyddwch ymhlith ffrindiau ac mae'n bur debyg y gallech rannu cludiant (gweler y cysylltiadau isod). Bydd yn golygu cychwyn yn fore iawn ar ôl teithio yno y diwrnod blaenorol a bwrw'r nos gerllaw.

heddweithredu:

Mwy o wybodaeth: <https://tinyurl.com/TPloughsharesMonthofAction2016>

Cysylltiadau Cymru: brian.jones@phonecoop.coop

reforest@g.n.apc.org

Un Dyn yn Atal Confoi Bomiau

Ar Fawrth 10fed am 5.20pm, dyma'r Niw-sbiwr Albanaidd Brian Quail o Glasgow yn camu ar groesfan i gerddwyr yn Balloch, ger Stirling, ac atal confoi yn cludo ergydion niwclear.

Confoi arall eto oedd hwn ar ei ffordd o SAA Burghfield i Coulport, lle caiff ergydion eu storio a'u llwytho ar longau tanfor Trident.

www.nukewatch.org.uk



Llun: John Ainslie

GWEITHREDWCHNAWR: cyfrannwch i Arolwg Llafur o Trident!

Mae Senedd San Steffan yn dal heb drafod y penderfyniad terfynol ynghylch olynu Trident. Yn y cyfamsar, mae'r Blaid Lafur yn adolygu ei pholisi amddiffyn, yn cynnwys system arfau niwclear Trident.

Mae gan bawb hawl i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn trwy hysbysu Ysgrifennydd Amddiffyn yr Wrthblaid Emily Thornberry o'u barn cyn y dyddiad cau, 30ain Ebrill. Trwy ddangos nerth y farn yn erbyn Trident, bydd y cyfraniadau'n helpu i ddylanwadu ar ganlyniad terfynol ystyriaeth y blaid Lafur. Beth bynnag y bo'ch plaid wleidyddol, da chi, rhannwch eich barn gyda'r Blaid Lafur.

Pwy All Gymryd Rhan?

Unrhyw unigolyn neu fudiad, boed yn aelod neu'n aelod cyswllt o'r Blaid Lafur ai peidio. Meddai awdur y ddogfen arolwg polisi, Emily Thornberry: 'Rydym am geisio'r amrediad barn ehangaf posibl, yn rhychwantu academia, y diwydiant amddiffyn, cyrff anlywodraethol, seneddwy, y cyhoedd ac, wrth gwrs, aelodau'r lluoedd arfog eu hunain.'

A Oes Fformat Neilltuo?

Mynegwch eich barn yn y ffordd rwyddaf i chi. Mae'r ddogfen Arolwg Polisi Amddiffyn yn cyflwyno'i gylch gorchwyl ar ffurf cyfres o gwestiynau, a allai fod o gymorth.

Y cwestiwn ynglŷn â Trident yw: 'A fydd adnewyddu gallu niwclear Prydain yn ein cynorthwyo i amddiffyn diogelwch Prydain a hyrwyddo'r gwerthoedd sy'n tywys ein polisi tramor ac amddiffyn?'

Mae'r ddogfen yn egluro sut y newidiodd natur y bygythion sy'n wynebu Prydain yn y 50 mlynedd diwethaf. Mae'n gofyn 'Pa ran ddylai Prydain ei chwarae mewn adeiladu byd mwy heddychlon, cyfiawn a diogel...' a 'Pa werthoedd ac egwyddorion ddylai fod yn ysgogi polisi amddiffyn strategol Prydain?'

Faint Ddylwn i ei Sgrifennu?

Does dim angen cynhyrchu magnum opus neu draethawd academiaidd manwl – fe wna paragraff neu ddau y tro. Dywedwch eich barn am Trident a rhoi'r rhesymau drosti. Defnyddiwch yr enghraifft isod, i'ch ysgogi. Ond, da chi, peidiwch â'i gopio – ni fydd nifer fawr o gyfraniadau cwbl unfurf yn effeithiol.

Rwy'n gwrthwynebu olynydd i Trident am fod arfau niwclear yn achosi niwed diwahân i'r blaned a'i phobl. Mae'r ffaith bod y fath arfau gan wledydd fel

Prydain yn ysgogi ymlediad i wledydd eraill sydd heb arfau niwclear. Dydy olynu Trident ddim yn ein diogelu rhag y prif beryglon sy'n ein hwynebu, fel terfysgaeth, seibr-ymosodiadau neu effeithiau newid hinsawdd fel llifogydd a stormydd. Mae'n aruthrol o ddrud: amcangyfrifir cost o £100 biliwn ar hyd ei oes.

Gwell fyddai defnyddio'r arian ar broiectau cymdeithasol cynhyrchol a rhai i greu cyfoeth, gan helpu i greu mwy o arian y gallai'r llywodraeth ei wario ar iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Annog Eraill i Gyfranogi

Da chi, anogwch eich grŵp CND Cymru, grŵp heddwch a chyfiawnder, undeb llafur, Cyngor Undebau Llafur neu ymgyrch gymunedol leol i gyfranogi. Cynhwyswch esboniad cryno o effaith olynu Trident ar yr aelodau, e.e.: 'Mae fy nghymdeithas tai yn gwrthwynebu Trident oherwydd a byddai'n well gennym weld yr arian yn cael ei wario ar wella tai cymdeithasol ac ar ddarparu mwy o gartrefi newydd fforddiadwy.'

Cyflwyniadau gan Ganghennau ac Etholaethau'r Blaid Lafur

Dylai aelodau unigol o'r Blaid Lafur fynegi eu daliadau wrth Ms Thornberry er mwyn gwir adlewyrchu barn y blaid. Os yw eich cangen ac/neu etholaeth Lafur wedi mabwysiadu polisi yn erbyn olynu Trident, anfonwch gopi o'r penderfyniad ar yr Arolwg Amddiffyn, gyda sylwadau ynglŷn â'r farn a fynegwyd gan aelodau.

Ni fydd llawer o ganghennau ac etholaethau yn cwrdd yn ystod mis Ebrill oherwydd etholiadau. Os bu i'ch cangen/etholaeth plaid Lafur fabwysiadu polisi yn erbyn Trident yn y blynyddoedd diwethaf, anfonwch hwnnw at yr Arolwg Polisi Amddiffyn gan esbonio bod yr etholiadau wedi rhwystro trafodaeth gyfredol mewn pryd cyn dyddiad cau'r Arolwg Amddiffyn.

Carol Turner, Is-gadeirydd CND Llafur

ADNODDAU

*Ebostiwch eich cyflwyniad at defencereview@labour.org.uk neu ei anfon trwy'r post at: Y Blaid Lafur, Southside, 105 Victoria Street, Llundain SW1E 6QT. Os oes gennych AS Llafur, gallech anfon copi ato/ati hefyd!

*Gellir lawrlwytho Labour's Defence Policy Review o: www.yourbritain.org.uk/defencereview

Ceir Trident Fact File CND Llafur – gwybodaeth i'ch helpu i ddrafftio cyflwyniad – yn www.labourcnd.org.uk

Mae Trident yn Drosedd

Nod PICAT (Achosion Budd Cyhoeddus yn erbyn Trident) yw dod â Trident gerbron llys.

Mae tystiolaeth o'r troseddau sy'n ymhyg yn Trident a'r ymgais i'w adnewyddu yn cael ei gosod ger bron llysoedd barn lleol. Y nod yw sicrhau dyfarniad a fydd yn arwain at roi terfyn ar y troseddau hyn trwy ddiarfogi system arfau niwclear Prydain.

Gweithredodd grŵp PICAT o Bowys ym Merthyr Tudful (eu llys 'lleol') ym mis Chwefror. Gwrthdystiodd rhyw 30 o bobl a draig goch y tu allan i'r Llys wrth



i'r Côr Cochion a Chôr Gobaith ganu i gyfeiliant trombôn coch.

Yn y cyfamser, cyflwynwyd gwybodaeth droseddol a bwndel o dystiolaeth prima facie o gynllwyn i gyflawni trosedd ryfel i'r Llys (gweler y cyswllt isod am yr ateb dechreuol).

Mae grŵp PICAT sir Benfro yn disgwyl bod yn Llys Hwlfordd cyn bo hir, a bydd y cyfreithiwr rhyngwladol Robbie Manson yn gobeithio cyflwyno'r ddadl yn y Llys ei hun yn hytrach na dim ond anfon y dogfennau yno.

Mae grŵp PICAT wrthi'n dechrau'r broses yn Llys Ynadon Caerfyrddin hefyd.

heddweithredu:

Gwych o beth fyddai cael gweithredwyr PICAT wrthi ledled Cymru, a hynny cyn gynted â phosib.

Beth bynnag y bo'r canlyniad, bydd cyflawni'r weithred ei hunan, yn enwedig ynghyd â gwaith gyda'r wasg, yn hysbysu pobl leol o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn arfau niwclear Prydain.

At hynny, bydd yn rhaid i'r llysoedd ymdrin â lluo o ymdrechion i gael y llysoedd i archwilio cyfreithlondeb Trident.

Ceir llysoedd Ynadon yn Aberystwyth, Y Coed Duon, Aberhonddu, Pen-y-bont ar Ogwr, Caernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin, Hwlfordd, Llangefni, Merthyr Tudful, Yr Wyddgrug, Pontypridd, Y Rhyl, Abertawe a'r Trallwm.

Mae dogfennau cefnogol i'w personoleiddio ar gyfer eich ardal a'ch grŵp ar gael yma: <http://tinyurl.com/pn3gbgb>

Am sgwrs ynglŷn â'r ymgyrch neu am fwy o fanylion, esboniad neu gymorth, da chi, cysylltwch ag Angie Zelter: picat@tridentploughshares.org t: 01547 520 929.



Gweithredu Nawr i Atal Trident



Wedi wythnosau o ddosbarthu taflenni ar y strydoedd a digwyddiadau gan y Côr Cochion yng Nghaerdydd, teithiodd ymgyrchwyr heddwch o bob rhan o Gymru i Lundain i Wrthdystiad a Rali Atal Trident CND ym mis Chwefror.

Yn Sgwâr Trafalgar, clywsant Arweinydd Plaid Cymru Leanne Wood AM, Prif Weinidog yr Alban Nicola Sturgeon, a'r ASau Caroline Lucas a Jeremy Corbyn ac eraill yn mynegi eu gwrthwynebiad i arfau niwclear. Siaradodd is-gadeirydd CND yr Alban, Veronika Tudhope, yn deimladwy am realiti beunyddiol byw yng nghysgod Trident: 'Mae Faslane, Coulport, confois niwclear a threnau niwclear yn fygythiad annerbyniol i boblogaeth ac amgylchedd Gorllewin yr Alban.'

Dewis Amgen Allweddol i Lymder

Roedd yr ymgyrchydd glew Adam Johannes o Glymblaid Atal y Rhyfel Caerdydd yn un o sawl trefnydd cludiant o Gaerdydd i rali Llundain a fynegodd resymau clir dros gymryd rhan:

'Mae Dileu Trident yn ddewis amgen allweddol i lymder. Bydd olynu Trident yn costio o leiaf £100bn a allai dalu, yn lle hynny, am:
1. 1.5 miliwn o gartrefi newydd; 2. Cyllido pob gwasanaeth GIG ac Argyfwng am 40 mlynedd; 3. Cyflogi 150,000 o nyrsys newydd; 4. Cael gwared o ffioedd dysgu ar gyfer 4 miliwn o fyfyrwyr; 5. Insiwleiddio 15 miliwn o gartrefi. Byddai pleidlais "ie" o blaid olynu Trident yn ymrwymo'r DU i 30 mlynedd arall o fod y un o ddim ond naw o wledydd yn y byd sydd ag arfau niwclear.

Os yw economïau mawr eraill fel yr Almaen yn ymdopi hebbynt, pam mae angen i ni wario biliynau arnynt?'



Anlladrwydd

Mae cefnogaeth i'r ymgyrch yn erbyn Trident ac unrhyw olynydd iddo yn gryf yng Nghymru, fel y bu erioed.

Yn 2007, cyn y ddadl gyntaf ar olynu Trident yn San Steffan, roedd Archeshob Cymru, Dr Barry Morgan, yn ddim ond un ymhlith llawer o ffigyrau cyhoeddus, yn cynnwys ACau ac ASau o Gymru, a arwyddodd ddatganiad gan CND Cymru yn gwrthwynebu unrhyw olynydd i Trident.

Roedd geiriau Jan Jones o CND Abertawe yn adleisio cred llawer o bobl:

'Rwyf yn un o fwyafrif ymhlith pobl Cymru sy'n gwybod bod Trident yn anllad.'



Llandudno

Yn Llandudno, ysbrydolwyd gweithredwyr gan sgwrs a roddwyd mewn cyfarfod o Grŵp Heddwch Sir Conwy gan Is-gadeirydd CND Cymru, Duncan Rees, gan gerdded a seiclo o'r Gerddi Gogledd Orllewinol i swyddfa etholaeth Guto Bebb yng Nghonwy. Cyn hynny, buasant wrthi'n dosbarthu taflenni a chasglu enwau ar ddeiseb a wthiwyd i flwch llythyrau Mr Bebb.

Y Rhyl

Yr un dydd â digwyddiad Llundain, aeth aelodau o Gynulliad Pobl y Rhyl ar daith 'ddosbarthu' 7-milltir i swyddfa James Davies AS yn Llanellwly i gyflwyno'u hachos yn erbyn Trident.

Fe'u hysbrydolwyd gan weithdy heddwch a diarfogi niwclear yn y Rhyl gyda Bruce Kent yn siaradwr gwadd y mis blaenorol, a ddilynwyd gan 'gig heddwch' mewn tafarn leol. Mae'r grŵp yn rhagweld digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Nid yn ein Henw Ni Meddai'r ymgyrchydd oesol dros heddwch a chefnogwr CND Cymru, Dr. Robin Gwyndaf:

'Ynglŷn â'r barbareiddiwch o adnewyddu Trident, parhau i gynhyrchu arfau niwclear, a gwerthu arfau i wledydd eraill, boed i bob person drwy Gymru gyfan; pob aelod mewn eglwys; pob cymdeithas a mudiad yng Nghymru; a boed i bob un ohonom ninnau ddatgan ag un llais, yn gryfach nag erioed, wrth Lywodraeth Prydain: "Na, na, na; nid yn ein henw ni; nid yn enw ein plant".'

heddweithredu:

- Daliwch i roi gwybod i'ch AS sut rydych chi'n teimlo ynglŷn â Trident. Peidiwch byth â gadael iddynt nhw feddwl bod eu hetholwyr yn ddifater – neu efallai y dechreuant gredu hynny! Gellir cysylltu mesurau 'llymder' â chynlluniau'r llywodraeth i wario ar arfau niwclear. Gweler www.theyworkforyou.com am ffordd hawdd o gysylltu â nhw, neu trwy'r post: Eich AS, Tŷ'r Cyffredin, Llundain W1A 0AA
- Gofynnwch i'ch AS i arwyddo EDM 280 ar Trident; ar y penderfyniad terfynol ynglŷn â Trident, a ddisgwylir eleni. Mae'r EDM yn nodi, mewn cyfnod o doriadau cyson mewn gwariant cyhoeddus, bod gwell ffyrdd o wario'r £100 biliwn y bydd Trident yn ei gostio ar hyd ei oes yn y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mewn adrannau Llywodraeth eraill, ac yn galw ar y llywodraeth i ddileu'r cynlluniau i olynu Trident. Er mwyn darllen yr EDM a gofyn i'ch AS ei arwyddo: <http://act.cnduk.org/lobby/edm280>
- Am y diweddaraaf am yr ymgyrch, ewch i: <https://www.facebook.com/cndcymru> a www.cndcymru.org
- Llandudno: <https://tinyurl.com/Llandudno27-02-16> Cysyllter â Steve Heaney: 07539 690 777
- Y Rhyl: James McGuinness 07933 514 500 jimmyonebomb@googlemail.com <https://tinyurl.com/Rhyl27-02-16>

PŴER NIWCLEAR - ARFAU NIWCLEAR

Dwy ochr i'r un geiniog

Bu cysylltiad clos rhwng rhaglenni niwclear sifil a milwrol ym Mhrydain o'r cychwyn cyntaf.

Er y 1950au mae'r ddau ddiwydiant wedi cefnogi ei gilydd gyda gwybodaeth arbenigol ac adnoddau a chyllid. Mae rhai wedi dweud mai pŵer niwclear yw'r 'môr niwclear' y gall 'pysgod' arfau dinistr torfol 'nofio' ynddo.

- Mae'r 4 llong danfor Vanguard sy'n rhan o system saethu arfau niwclear Trident Prydain hwythau wedi eu gyrru gan adweithyddion niwclear. Maent yn cario taflegrau balistig wedi eu gyrru gan rocedi, a all gludo ergydion thermo-niwclear sydd wedi eu targedu'n annibynnol.
- Mae angen gwybodaeth dechnegol niwclear ar gyfer defnydd sifil a milwrol ill dau. Mae'r diwydiannau niwclear sifil a milwrol yn rhannu costau ymchwil, mwynloddio am wraniwm, cyfoethogi ac ailbrosesu, yr holl fordd drwodd at broblemau gwastraff niwclear.

Gwastraff Ymbelydrol

Nid oes cynllun eglur yn bod hyd yma ar gyfer gwastraff o safleoedd sifil neu filwrol. Felly, ni ellir cynnwys gwir gostau tymor-hir storio gwastraff ymbelydrol (am filoedd o flynyddoedd) mewn unrhyw amcangyfrif o gost project sifil neu filwrol gan eu bod yn anhysbys. Diau y telir amdanynt yn y pen draw gan y trethdalwr.

Terfysgaeth

Mae pob gorsaf niwclear, safle gwastraff ymbelydrol, adweithydd ymchwil a safle arfau niwclear milwrol oll yn dargedau posib i 'fomiau brwnt (ymbelydrol)' terfysgwyr. Gallai'r bygythion gynnwys anablu offer ar lefel y ddaear gan arwain at ymdoddiad craidd yr adweithydd neu wasgaru ymbelydredd; ymosodiadau allanol fel awyren yn toro adweithydd; sabotage mewnol neu ymosodiadau seibr. Ym 1985, galwodd Dr. Bennett Ramberg orsafoedd pŵer niwclear yn 'arfau dinistr torfol wedi eu rhagleoli'. Yn yr

un modd, gallai defnyddiau ymbelydrol a gludir trwy Brydain a thu hwnt ar ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr fynd yn dargedau i derfysgwyr ar unrwy adeg.

Ymlediad

Sefydlwyd Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear 1970 gyda'r nod o geisio 'llesteirio ymlediad arfau niwclear a hyrwyddo'r nod o ddiafogi tra, ar yr un pryd, feithrin defnyddiau heddychlon ynni niwclear'. Efallai nad oedd drafftwy'r y Cytundeb hwn ar ddiwedd y 60au yn llawn ymwybodol o'r dolenni cyswllt ideolegol ac ymarferol peryglus rhwng defnyddiau sifil a milwrol. Dylai ymgais effeithiol i sicrhau diafogi niwclear fynnu bod gwladwriaethau'n peidio â chreu cyflenwadau newydd o blwtoniwm a wahanwyd gan orsafoedd sifil trwy ailbrosesu. Dylid bod â chyfundrefn i storio a gwarchod y cyflenwadau presennol rhag ofn i wladwriaethau geisio tanseilio unrhyw drefn sy'n gwahardd arfau niwclear yn y dyfodol trwy adeiladu arfau niwclear newydd neu ailgreu eu harfogaethau niwclear.

Mae hanfodion sylfaenol arfau a phŵer ill dau yn gysylltiedig:

PLWTONIWM – sgil-gynnyrch ymbelydrol yr adwaith cadwyn ym mhob adweithydd niwclear. Fe'i gwahanir a'i gyfoethogi'n fawr trwy ailbrosesu i gynhyrchu ergydion niwclear. Mae gan Brydain ryw 8 tunnell fetrig o blwtoniwm graddfa-arfau; mae angen 2-10kg i wneud bom niwclear. Mae gan Brydain ryw 210 tunnell fetrig o Blwtoniwm sifil ar gael i'w gyfoethogi.

WRANIWM – mae Wraniwm Tra-Chyfoethog (HEU) ar gyfer arfau yn ddeunydd a ailbroseswyd o orsafoedd niwclear sifil. Cymer un bom 20-25 kg o HEU. Defnyddir wraniwm a gloddir fel tanwydd ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear yn bennaf.

WRANIWM WEDI EI DDISBYDDU – defnyddir y sgil-gynnyrch hwn, o ailbrosesu tanwydd adweithyddion, mewn taflegrau a all dreiddio trwy fetel trwchus. Mae'n wenwynig iawn yn gemegol ac yn ymbelydrol, a chredir i'w ddefnydd yn Irac a Kosovo achosi canser, namau geni a marwolaethau.

TRITIWM – nwy ymbelydrol peryglus sy'n gallu disodli atomau hydrogen mewn unrhyw beth byw. Sgil-gynnyrch gweithrediad gorsaf bŵer niwclear. Yn elfen allweddol mewn bomiau niwclear, mae ganddo hanner bywyd cymharol fyr ac felly mae angen cyflenwad newydd ohono yn gyson.

CHERNOBYL – y 30 mlynedd cyntaf

Ffrwydrad Chernobyl ym 1986 oedd trychineb niwclear fwyaf yr 20fed ganrif.

Mae rhai yn credu nad yw'r ddamwain, ar ffiniau gogleddol Wcráin, yn fgythyad bellach. Mae'r sefyllfa go iawn yn dra, dra gwahanol. Mae deunydd ymbelydrol yn dal i wenwyno'r amgylchedd ac effeithio ar ddeunydd genynnol y rheini nad oes â dewis amgen na byw yno.

Am byth

Ni ellir byth ddadwneud effaith yr un ddamwain niwclear honno; mae ei hól troed ymbelydrol yn barhaol; mae ei hetifeddiaeth farwol yn effeithio o hyd ar filiynau o bobl fyw, ac ar filiynau heb eu geni. Rhaid peidio â throï cefn ar y cenedlaethau hyn sydd i ddod – a rhaid gwneud ein gorau i sicrhau na ddigwydd hyn byth eto.

Ymdoddiad

* Rhyddhaodd y ddamwain 200 gwaith yn fwy o ymbelydredd nag a ryddhawyd gan y ddau fom atomig a ollyngwyd ar Hiroshima a Nagasaki.

* Mae 97% o ddeunydd ymbelydrol marwol yr adweithydd yn dal i fod o fewn y sarcoffagws anwadol.

* Syrthiodd 70% o'r radio-niwclidau ar 7 miliwn o boblogaeth Belarws.

* Peryglodd 700,000 o

'ddiddymwyr' eu bywydau, gan ddioddef lefelau peryglus o ymbelydredd er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa.

* Mae o leiaf 40,000 o'r diddymwyr wedi marw. Mae 70,000 arall yn

anabl. Hunanladdiad oedd achos 20% o'r marwolaethau hyn.

* Cam 1 yn y gwaith rheoli niwedd yw adeiladu sarcoffagws newydd i ddiogelu'r adweithydd am gan mlynedd. Bydd rhai o'r elfennau ymbelydrol mwyaf peryglus o fewn y craidd yn para am fwy na 24,400 o flynyddoedd.

* Cam 2 yw datgymalu'r adweithydd a thrin 200 tunnell a mwy o ddeunydd ymbelydrol sy'n dal y tu mewn iddo. Fe gymer hyn flynyddoedd lawer.

* Costiodd y sarcoffagws newydd a'r gwaith glanhau €1.5 biliwn hyd yn hyn.

Amgylchedd

* Llygrwyd 99% o dir Belarws ym 1986.

* Symudwyd 2,000 o gymunedau oddi yno, ac ail-gartrefwyd mwy na 400,000 o bobl er 1986. Mae 70,000 yn dal i ddisgwyl cael eu hail-gartrefu.

* Mae'r parth gwahardd yn gorchuddio rhyw 1,000 milltir sgwâr.

* Mae hanner bywyd rhai radio-niwclidau yn y pridd a'r aer (e.e. plwtoniwm) yn fwy na 24,400 o flynyddoedd.

* Mae Caesiwm 137 o'r ddamwain wedi treiddio i'r corff dynol. Dywed yr Arbenigwr Meddygaeth Niwclear, yr Athro Yuri Bandashevsky o Ysbyty Ivankova yn Wcráin bod 'unrhyw ddos o Caesiwm 137 yn orddos, ni ddylai bod unrhyw gwestiwn o lefelau derbyniol yn y corff'.

Economi

* Mae gwir gost damwain Chernobyl yn trigo yng nghelloedd y rhai a oroesodd, a chânt eu trosglwyddo i'w plant o genhedlaeth i genhedlaeth.

* Mae'r drychineb heddiw yn costio 20% o'i chyllideb flynyddol i Belarws.

* Amcangyfrifir y bydd canlyniadau'r drychineb yn costio €209 biliwn i Belarws.

* Mae 1.7 miliwn o bobl yn byw mewn tlodi; mae 178,000 yn byw mewn 'tlodi eithaf' (llai na hanner y lefel gynhaliath)

* Plant yw'r mwyaf diymgeledd o ran iechyd a thlodi.

* Mae 2 filiwn o bobl Belarws (500,000 o blant) yn dal i fyw mewn parthau llygreddig iawn. Mae dioddef ymbelydredd lefel-isel beunydd trwy'r gadwyn fwyd yn dal yn risg anferthol. Bydd tir wedi ei lygru gan radio-niwclidau am 24,000 o flynyddoedd, ac ni ellir ffermio 1 miliwn hectar yn ddiogel am gan mlynedd.

heddweithredu:

Mae ymgyrchu yn erbyn pŵer niwclear yn gall – mae yna ddewisiadau amgen. Ym 1995 aeth CND Cymru â llong ambiwlans o offer meddygol i ysbytai a chartrefi plant amddifad ym mharthau llygreddig Belarws gyda Adi Roche a Phlant Chernobyl Rhyngwladol (CCI). Roedd y nifer o afiechydon, mathau o ganser a namau geni a welso mewn sefydliadau gorllawn – ar ben y tlodi – yn syfrdanol. Mae CCI yn parhau â'r gwaith da yn Belarws mewn llawer o ffyrdd gwahanol, tra'n sicrhau bod y gwirionedd am beryglon pŵer niwclear yn cael ei glywed.

Da chi, cefnogwch nhw, gweler:

www.chernobyl-international.com



PŴER NIWCLEAR

A fydd Wylfa B yn mynd rhagddo? Cymylau du yn crynhoi dros Horizon

Ar derfyn 2015 caewyd adweithydd Wylfa A o'r diwedd wedi 44 mlynedd. Anadlodd llawer ohonom ochenaidd o ryddhad gan fod hyn ymhell wedi'r dyddiad cau gwreiddiol.

Beth nesaf?

Dylid cwblhau'r broses o dynnu'r tanwydd o'r adweithydd yn 2018. Y cynllun ar gyfer Wylfa B yw cychwyn adeiladu yn y 2020au – ond ymddengys hynny'n llai llai tebygol. Rhaid i'r Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR) arfaethedig ar gyfer Wylfa B gael ei gymeradw o dan Asesiad Dyluniad Cyffredinol, proses a gymer ddwy flynedd arall. Does yna'r un ABWR yn gweithredu yn unman yn y byd ar hyn o bryd, ac roedd y llond dwrn fu'n gweithredu yn y gorffennol ymhell o fod yn effeithiol. Efallai na fydd y ffordd ymlaen yn rhwydd.

Mae'r ABWR yn defnyddio tanwydd â lefel losgi uchel. Bydd hyn yn gadael gwastraff ymbelydrol iawn wedi ei ynsu ar y safle am 150 o flynyddoedd, na fydd yn ddiogel am 10,000 o flynyddoedd. Hwyrach bod hyn yn destun cryn bryder i chi a minnau, ond bwgan arall sy'n dychryn project Wylfa B y dyddiau yma: cyllid.

Arian, arian, arian

Ers i gonsortiw Almaenig RWE n-Power and E-ON olchi ei ddwylo o Wylfa B yn 2012, bu Horizon Nuclear yn eiddo i'r cewri Japaneaid, Hitachi. Mae'r wasg wedi cyhoeddi dro ar ôl tro y gwnaed cytundeb, a bu dilyw o ddeunydd PR sgleiniog yn tywllt trwy bob twll llythrau ym Môn. Felly, syfrdanwyd y

cyhoedd ym mis Ionawr 2016 gan addefiad prif weithredydd a chadeirydd Hitachi, Hiroaki Nakanishi, y gallai'r cwmni dynnu allan o gytundeb Wylfa unrhyw bryd pe na bai'r amodau cyllidol yn iawn.

Eliffant gwyn

Ysgogwyd y newid hwn gan y traed moch llwyr yn achos project blaenaf y deffroad niwclear bondigrybwyll: Hinkley C, dan reolaeth y cwmni gwladol Ffrengig EDF. Mae ei ddatblygiadau Adweithydd Dan Bwysau yn y Ffindir a Ffrainc ymhell dros eu cyllideb ac yn aruthrol o hwyr, ac wedi datgelu diffygion dylunio difrifol. Roedd y costau'n saethu i fyny a chyllid o China ddim bellach yn ddewis mor amlwg. Dan bwysau, penderfynodd llywodraethau Prydain a Ffrainc fod eu hunan-barch yn bwysicach na phris gwarantedig a gwarantau atebolrwydd a fyddai'n brifo defnyddwyr a threthdalwyr am genedlaethau i ddod. Dyma ddewis rhedeg trwy bob golau coch. Mae hyd yn oed y wasg asgell-dda ac ASau cefnogol bellach yn gorfod cyfaddef mai ynni niwclear yw'r eliffant gwyn eithaf un.

Cwestiynau

Mae'r her gyfreithiol i gymhorthdal gwladol yn Hinkley gan Awstria a Lwcsembwrg a'r Action Alliance yn rhygnu ymlaen, a bydd canlyniad hynny'n effeithio ar Wylfa B hefyd. Cred llawer o arbenigwyr niwclear, a Greenpeace, yn wir, er gwaetha pob sicrwydd, na



fydd Hinkley C yn digwydd. Ac os syrthia Hinkley, fe syrthia Wylfa a'r gweddill ar y rhestr, fel rhes o ddominos. Ond fedrwn ni ddim bod yn siŵr. Hyd yn oed wrth i'r olwynion syrthio oddi ar y cerbyd niwclear, mae llywodraeth yr DU yn hysio'r ceffylau, tra bod llywodraeth Cymru'n rhedeg y tu ôl, yn cymeradwyo'n sebonllyd.

Sgwn i pam.

Phil Steele, PAWB

'Yn Berffaith Ddiogel'

Ym mis Mawrth 2016, datgelwyd y darganfu gweithwyr yn Wylfa A fis Tachwedd diwethaf fod gwyntyll a oedd i fod i ddod ag aer I MEWN i adeilad yr adweithydd yn gweithio tu chwith, fel bod yr aer drwg yn cael ei chwythu ALLAN i'r awyrgylch.

Prin bod hyn yn ennyn hyder!

Hinkley Point C - Y Stori Hyd yn Hyn

Saif Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf, 20 milltir gyda'r gwynt o arfordir de Cymru.

Cynigodd Electricité de France (EdeF) y dylid adeiladu trydedd gorsaf bŵer niwclear, Hinkley Point C (HPC) ar y safle dros 8 mlynedd yn ôl. Gydag Adran yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd (AANH) yn cefnogi ynni niwclear newydd, dim rhyfedd i ganiatâd cynllunio gael ei roi yn 2013.

Yn hwyr ac yn ddrrud

Ers hynny, aeth popeth a allai fynd o'i le o'i le. Profodd y dyluniad Adweithydd Dŵr dan Bwysau a ddewiswyd ar gyfer y project bron yn amhosib ei adeiladu yn China, y Ffindir a Ffrainc. Mae'r adweithyddion hynny flynyddoedd ar ei hôl hi ac ymhell dros eu cyllideb.

Gwneud y rhifydddeg

Er gwaethaf trefnu cytundeb gyda'r AANH i gyflenwi trydan am £92.50 y megawat, deirgwaith y pris cyfredol, wedi ei fynegrifo a'i warantu am 35 mlynedd, yr unig fuddsoddwyr anafodlon eraill yw China. Mae buddsoddwyr o Brydain wedi cefnu ar gytundeb sy'n ymddangos yn un euraid, ac sydd yn destun her gyfreithiol gan Awstria i'r UE. Ynghyd â chyllido HPC, rhaid i EdeF dalu €55 biliwn am welliannau ôl-Fukushima i'w 58 adweithydd niwclear yn Ffrainc. Mae eu sefyllfa ariannol mor enbyd nes i'w Cyfarwyddwr Ariannol, Thomas Piquemal, ymddiswyddo am na allai ddarbwylllo'i Bennaeth, Vincent de Rivaz, y dylai EdeF ollwng HPC.

Dim hyder

Gorfu i EdeF erfyn ar lywodraeth Ffrainc, perchennog 85% o'r cwmni, i ganfod ffordd o gyllido HPC er mwyn iddo allu gwneud y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol (PBT), rhywbeth y mae wedi dweud ei fod am wneud fwy na dengwaith yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Rhaid i Fwrdd EdeF

gymeradwyo'r Penderfyniad hwnnw ac mae bellach yn amlwg bod aelodau'r undeb o leiaf yn debygol o wrthwynebu bwrw ymlaen â HPC. Dywedir bod hyd yn oed eu peirianwyr niwclear eu hunain wedi mynegi amheuan ynghylch dyluniad yr adweithydd.

Yn absenoldeb y PBT, does dim byd yn digwydd ar y safle. Cwblhaodd EdeF y gwaith o baratoi'r safle, gan symud y rhan fwyaf o'r gwastraff asbestos o'r orsaf 'A' a oedd wedi cael ei daflu ar safle HPC.

Ymgyrchu'n parhau

Mae Stop Hinkley yn dal i fonitro ymdrechion EdeF i 'symud ymlaen'. Y newyddion da yw bod y cyhoedd yn ymddangos yn fwyfwy ymwybodol o'r ffaith y byddai HPC yn ddrrud iawn i'w

adeiladu, â dyluniad heb ei brofi, ac y byddai'n cynyddu eu biliau trydan.

Os rhydd y PBT olau gwyrdd i HPC, bydd Stop Hinkley yn cynnull protestwyr fel y gwnaed o'r blaen.

*Roy Pumfrey
Llefarydd Stop Hinkley*

heddwei thredu:

Mae Hinkley Point yn fater sy'n effeithio ar Gymru – yn enwedig de Cymru. Gallai pryderon am alldafladau a llygredd ym Môr Hafren o holl orsafoedd pŵer niwclear Hinkley Point fod yn fater arall i'w godi gydag ymgeisiwr ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i anfon sgipiau llawn llygredd o dair gorsaf bŵer niwclear i Hinkley Point A i'w ddadlygru a'i storio. Mae dau lond tren o wastraff niwclear yr wythnos eisoes yn teithio trwy ganol Bryste.

Cadw mewn cysylltiad â'r ymgyrch: www.stophinkley.org
roy@stophinkley.org
01278 652 089

Gweler hefyd <https://tinyurl.com/Nuclear-Free-Bristol>



Mwy o Bŵer Niwclear yng Nghymru? Na!

Cynhaliodd PAWB wynlos foreol ar Bont Menai i nodi pum mlwyddiant trychineb niwclear Fukushima. Y gobaith oedd y byddai hynny hefyd yn atgoffa pobl leol am beryglon adeiladu unrhyw orsafoedd niwclear newydd ym Môn, Trawsfynydd neu unrhyw le arall.

Wrth i 30 mlwyddiant damwain niwclear Chernobyl a phum-mlwyddiant Fukushima nesáu, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan 'Ymholiad i Ddyfodol Pŵer Niwclear yng Nghymru'. Yn ychwanegol at gyflwyniadau gan y lobi o blaid ynni niwclear – rhai ohonynt yn eiddgar i weld datblygu adweithyddion niwclear bychain yn Nhrawsfynydd – derbyniwyd rhai sy'n gwrthwynebu datblygiadau niwclear yng Nghymru gan unigolion a mudiadau fel NFLA, PAWB a Greenpeace. Gellid eu gweld trwy ddilyn y ddolen gyswllt isod, ac y maent yn ddeunydd darllen diddorol.

Môr Iwerddon Ymbelydrol
Comisiynwyd ymchwil a chyflwyniad CND Cymru gan gwmni Ymchwil ac Ymgynghori ar Ymbelydredd Morol Tim Deere Jones, yn sir Benfro. Mae'r sefydliad ymchwil hwn wedi bod wrthi ers amser maith yn samplu gwaddion

môr a thir o gwmpas Cymru i ganfod radio-niwclidau.

Daeth Tim Deere Jones i'r casgliad: 'Mae gan yr Adweithyddion Dŵr Berwedig Uwch yr arfaethir eu defnyddio yn yr Wylfa Newydd record weithredu wael. Dim ond pedwar a "gomisiynwyd" ac mae pob un o'r rheini yn llai na 50% effeithlon. Nid yw record o'r fath yn awgrymu hyfywedd ariannol. Polisi ffôl fyddai codi'r adweithyddion hyn yn yr Wylfa a chyfuno eu record warthus â rhyddhau mwy o ymbelydredd, a thrwy hynny gynyddu'r crynoadau a'r dosau o ymbelydredd a geir eisoes yn amgylcheddau morol ac arfordirol gogledd Cymru a Môr Iwerddon.'

Golwg o Gymru

Mewn cyfarfod 'Stop Hinkley' ym mis Mawrth yng Ngwlad yr Haf, dywedodd Is-gadeirydd CND Cymru, Brian Jones, a fu'n ymweld ag ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn Fukushima: 'Japan yw un o wledydd cyfoethocaf ac mwyaf uwch-dechnegol y byd, ond maent yn methu datrys y problemau a grewyd gan ddamwain niwclear. Ac fel arfer, y bobl gyffredin, a arferai fyw ger yr orsaf niwclear, ond a orfodwyd i symud oddi yno, sy'n dioddef fwyaf.' Dim ond 20 milltir sydd rhwng safle niwclear Hinkley Point ac arfordir de Cymru.

Am Wastraff!

Meddai Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru, Jill Gough:

'Ni fyddai datblygiadau niwclear newydd yn gynaliadwy. Dylai Cymru fod yn rhan o'r broses o ddatrys problemau llygredd ymbelydrol a gwastraff a grewyd eisoes; yn sicr, ni ddylai gyfrannu at gynyddu'r problemau.

Rhaid cyfeirio adnoddau at y broblem o sut i ddadylgru yr Wylfa, Trawsfynydd a phob safle niwclear arall yn llwyr; eu gwarchod am oesoedd maith yn y dyfodol, a sut i storio gwastraff ymbelydrol yn ddiogel o safbwynt cenedlaethau i ddod a phob creadur byw.'

'Dylai Cymru fod yn rhan o'r ateb i'r broblem, nid yn cynllunio i'w gwneud yn waeth.'

heddweithredu:

Diolch i bob grŵp ac unigolyn a ymatebodd i Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig: <https://tinyurl.com/GovNuclearPowerWalesInquiry16>

Am gopi papur o gyflwyniad CND Cymru, anfonwch amlen A4 â stamp arni at Jill Gough (*gweler Cysylltiadau t. 18*).

COEDDEN HEDDWCH

Coeden heddwch yn Aberystwyth

Ym mis Chwefror, plannodd Côr Gobaith a ffrindiau goeden goffa yng nghanol y dre yn Aberystwyth.

Ysbrydolwyd hynny gan Wyl Corau Stryd 2013 â'i thema 'Heddwch', a thalwyd am y goeden yn rhannol gan CND Cymru trwy gyfrwng cyfraniad diennw.

Pan ofynnwyd iddi ynglŷn â'r project, meddai trefnydd y digwyddiad, yr aelod côr a'r plannwr coed profiadol, Joy Harris:

'Ymddangosai'n amser da i wneud. Roedd llawer ohonom yn teimlo bod y dyddiau'n dywyll nid yn unig oherwydd y gaeaf diflas, ond am fod cymaint o bethau ofnadwy yn digwydd o'n cwrmpas. Rhyfel yn Syria, tynged y ffoaduriaid, ymosodiadau braw ym Mharis a mannau eraill, y dioddefaint parhaus yn Gasa ... Ar y llaw arall, roedd pobl yn dod ynghyd â'r fath dosturi, yn codi arian ac anfon cymorth

at y ffoaduriaid, eu croesawu i'n gwlad, gwrthdystio yn erbyn newid hinsawdd a dangos cymaint yr ydym, fel cymuned, yn poeni. Felly, i mi, roedd plannu coeden dros Heddwch yn symbol o'n gobeithion a'n breuddwydion am dwf newydd a gwell dyfodol, a'r dyhead am wrthbwysu drygioni â phrydfwerthwch.'

Cyfeiriodd rhai a fu'n cynorthwyo i blannu'r geiriosen flodeuog at y traddodiad maith o gefnogi ac ymgrychu dros heddwch yn Aberystwyth. Yn bresennol, ynghyd â'r Côr Gobaith, Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, unigolion ac aelodau o CND Cymru, roedd Mike Fincken, Capten llong Greenpeace, y Rainbow Warrior; Jon Hadlow,



rheolydd tir-ofalaeth Cyngor Sir Ceredigion; Brendan Somers, Dirprwy Faer Aberystwyth; Y Cyng. Alun Williams; Ellen ap Gwynn, arweinydd Cyngor Ceredigion; ac Elin Jones AC.

Am fwy o luniau o blannu'r goeden ac atgofion am ymgrychu dros heddwch yn Aberystwyth yn y gorffennol: <https://tinyurl.com/AberystwythPeaceArchivePhotos>

Pleidleisiwch dros Gymru: Pleidleisiwch dros Heddwch a Chyfiawnder

Cynhelir etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar Fai y 5ed. Bydd gennym ni yng Nghymru gyfle i bleidleisio dros ddau Aelod Cynulliad (Etholaeth a Rhanbarth).

Er nad yw Amddiffyn yn un o feysydd deddfu'r Cynulliad (gweler isod), serch hynny, mae rhai cwestiynau y gallai unrhyw un sy'n ymboeni am heddwch a chyfiawnder eu gofyn i ymgeiswyr:

1. A fydddech chi'n cefnogi rhoi arian cyhoeddus i geisio denu cwmnïau arfau amlwladol i fuddsoddi/ehangu yng Nghymru?
2. A fydddech chi o blaid hyrwyddo recriwtio milwrol yn ysgolion Cymru?
3. Beth yw eich barn ynglŷn â datblygu pŵer niwclear yng Nghymru a buddsoddi gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn sefydliadau addysg sy'n hyrwyddo datblygu technoleg niwclear?
4. A fydddech chi'n cefnogi neu'n ymgrychu yn erbyn cyfleuster storio deunydd ymbelydrol yn eich etholaeth?

Felly ... os cewch chi gyfle ... ewch ati i'w holi!

Meysydd Lle Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol Bwerau Deddfu:

* Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig * Henebion ac adeiladau hanesyddol * Diwylliant * Datblygu economaidd * Addysg a hyfforddiant * Yr Amgylchedd * Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân * Bwyd * Iechyd a gwasanaethau iechyd * Prifffyrdd a thrafnidiaeth * Tai * Llywodraeth leol * Gweinyddiaeth gyhoeddus * Lles cymdeithasol * Chwaraeon a hamdden * Twristiaeth * Cynllunio gwlad a thref * Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd * Y Gymraeg *

Ffair Arfau Caerdydd - Mas o Gymru!

Gwadodd trefnwyr arddangosfa a alwyd yn 'ddigwyddiad caffael offer amddiffyn blaenllaw'r DU' mai 'ffair arfau' ydoedd.

Efallai mai semanteg oedd hynny ond beth bynnag ei theitl, y ffaith amdani yw mai aelodau o'r gwasanaethau milwrol a sbïo, a phrynwyr a gwerthwyr arfau a wahoddwyd i fynychu'r digwyddiad Caffael, Ymchwil, Technoleg ac Allforio Amddiffyn (DPRTE) yn Arena Motorpoint Caerdydd. Aeth Atal Ffair Arfau Caerdydd ati ar unwaith i lwyfannu gwrth-ddigwyddiad.

Perthynas Afiach

Y diwrnod blaenorol, cyflwynodd Côr Cochion Caerdydd ddeiseb a llythyr aml-lofnod i reolydd Motorpoint. Roedd y gwyn yn galw sylw at y ffaith bod gan BAE 'berthynas arbennig iawn' â llywodraethau San Steffan a Saudi Arabia. Condemnir Saudi Arabia am ei record hawliau dynol ac am fomio marchnadoedd

prysur, ysgolion ac ysbytai Medecin sans Frontières yn Yemen. Mae llywodraeth San Steffan yn wynebu her yn yr Uchel Lys ar hyn o bryd i archwilio a yw ei gweithredoedd yn torri cyfreithiau allforio arfau Prydain a'r UE.

Dros y Bont

Daeth protestwyr i Gaerdydd o bob cwr o Gymru, o Fryste ac o fannau eraill. Cawsai DPRTE ei orfodi i symud o Fryste ar ôl gwrthwynebiad anferthol gan y cyhoedd ac ymgyrch ysgubol gan Bryste yn Erbyn y Fasnach Arfau yn 2013. Gweithiodd Atal Ffair Arfau Caerdydd gydag eraill

ers hynny â'r nod o'i symud eto.

'Ddylai Cymru ddim chware unrhyw ran yn y busnes budr yma'

Ar ddydd y Ffair Arfau, ymgasglodd rhwy 400 o brotestwyr y tu allan i Arena Motorpoint i fynegu eu ffeidd-dra bod yr arddangosiad hwn o arfau marwolaeth a dinistr yn cael ei gynnal yng nghalon ein prifddinas. Mae Ffeiriau Arfau yn hanfodol i rwydd hynt y fasnach arfau. Maent yn hyrwyddo gwerthiant arfau trwy roi cyfle i werthwyr arfau ac offer milwrol a gweithredol i gwrdd a chyfarch ei gilydd ynghyd â dirprwyaethau milwrol a swyddogion llywodraethau. Nid yw'n syndod i neb fod rhestrau gwesteion ffeiriau arfau yn aml yn cynnwys cynrychiolwyr gwledydd sydd yng nghanol gwrthdaro arfog a llywodraethau sydd yn diystyru hawliau dynol.

Wyth Awr o Brotestio

Dringodd protestwyr yr adeilad er mwyn arddangos baner 'STOP CARDIFF ARMS FAIR' a chafodd chwech eu restio. Safai rhai tu allan i geryddu a bwio'r ymwelwyr, tra'r aeth eraill i mewn i'r Ffair i siarad â chynrychiolwyr



FFAIR ARFAU

ac arddangoswyr. Safai llawer yn dal posteri a baneri teimladwy, gan wisgo masgiau.

Y Tu Mewn

Dim ond un o blith mwy nag 80 o arddangoswyr DPRTE oedd British Aerospace (BAE). Roedd yno hefyd lawer o enwau adnabyddus y fasnach arfau ryngwladol, ynghyd â 'Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol' y Cynulliad, a Phrifysgol De Cymru. Roedd cwmnïau eraill yn cynnwys enwau cyfarwydd fel BT a Panasonic sy'n chwarae rhan gefnogol trwy ddarparu TG a chymorth technegol arall ar gyfer y rhyfeloedd sydd wedi creu cymaint o filiynau o ffoaduriaid yn Syria, Palesteina, Irac ac Afghanistan. Mae arian mawr i'w wneud o'r gwahanol arfau a dulliau technolegol eraill o ymladd rhyfeloedd a chadw rheolaeth a sbïo ar boblogaethau.

Eu Hel Nhw Allan!

Condemniodd Dirpwry-arweinydd Cyngor Caerdydd Sue Lent y gwastraff adnoddau a fuddsoddwyd yn y fasnach arfau yn hytrach na mewn gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r fath angen.

Dywedodd Chloe Marsh, llefarydd ar ran Bryste yn Erbyn y Fasnach Arfau: 'Cawsom lond bol

o'n llywodraeth ynghyd â phwerau mawr eraill yn ymladd rhyfeloedd anghyfreithlon ym mhedwar ban. Mae'r rhan fwyaf o'r ymladd byd-eang o fudd i gwmnïau arfau a'r cewri olew, sydd am reoli buddiannau er eu lles eu hunain. Rydym wedi cynnal protestiadau yn erbyn DPRTE ers tair blynedd bellach; llwyddwyd i'w hel nhw allan o Fryste ac rydym yn hyderus y gallwn wneud 'run fath yng Nghaerdydd!'

Mynnai Paul Relph, CND Casnewydd, nad mater o elwgarwch yn unig yw gwerthu arfau i wledydd eraill, ond o ladd trwy ddirprwy. Dywedodd 'Mae llawer o arfau a werthir yn



syrthio i ddwylo terfysgwyr fel ISIS, sy'n eu defnyddio yn erbyn milwyr Prydeinig.'

Meddai Mike Peterson, CND Cyn-Luoedd Arfog, 'mae unrhyw un a gymerodd ran mewn rhyfel, fel y cyn-filwr Rhyfel Byd Cyntaf, Harry Patch, yn gwybod mai "llofruddiaeth yw rhyfel".'

Wendy Lewis a Jill Gough

Cymorth gwirfoddol

Mae CND Cymru yn edrych am wirfoddolwyr (neu wirfoddolwyr) i drefnu ein gwaith o lobïo Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol ac Aelodau Senedd Ewrop. Byddai'n:

- cysylltu ag aelodau CND Cymru trwy ebost, gan ofyn iddynt gysylltu â'u haelodau etholedig eu hunain, a darparu digon o wybodaeth ar eu cyfer iddynt allu dadlau'r achos;
 - rhoi ceisiadau yn gofyn i aelodau gysylltu â chynrychiolwyr etholedig neilltuol ar wefan CND Cymru a/neu'r dudalen facebook; a
 - rhoi trefn ar ymatebion gan ACau, ASau ac ASEau
- Amcangyfrifir y gallai hyn gymryd awr neu ddwy yr wythnos, pryd bynnag y bo'n gyfleus i'r gwirfoddolwyr, yn gweithio gartref, gyda chefnogaeth ac arweiniad gan CND Cymru

Cysylltwch â Brian Jones

brian.jones@phonecoop.coop os oes gennych ddiddordeb!

The Hammer Blow

Mae cyfrol Andrea Needham yn ddisgrifiad syml, gonest a darllenadwy o un o'r gweithredoedd diarfogi mwyaf ysbrydoledig a welodd Prydain erioed.

Yn 1996, roedd Prydain yn gwerthu awyrennau rhyfel Hawk i Indonesia, a'u defnyddiai i gyflawni hil-laddiad yn Nwyrain Timor. Ar ôl rhoi cynnig ar bob dull ymgyrchu arferol, torrodd Jo Blackman, Lotta Kronlid ac Andrea Needham i mewn i ffatri British Aerospace yn swydd Gaerhirfryn a morthwyllo un o awyrennau rhyfel Hawk Indonesia i'w diarfogi.

Cafodd y tair eu restio, eu cyhuddo o £2.4 miliwn o niwed troseddol, a'u hanfon i'r carchar i ddisgwyl achos llys. Wythnos wedyn, ymunodd Angie Zelter â nhw yn y carchar, wedi ei chyhuddo o gynllwynio. Ni allai'r weithred fod wedi digwydd heb help chwe aelod arall grwp



Andrea Needham

Hadau Gobaith Ploughshares, a oedd yn hanfodol i'r weithred o'r cychwyn cyntaf tan yr achos chwe mis yn ddiweddarach.

Mewn achos llys a oedd i bob pwrpas yn cyhuddo masnach arfau Prydain o drosedd, cafwyd y pedair yn ddiueog gan reithgor yn Lerpwl.

Brian Jones

“Dylai pawb sydd am weld newid cymdeithasol, neu sy'n ymgyrchu dros heddwch, ddarllen y llyfr hwn, a chael ysbrydoliaeth o weithredoedd dewr y menywod anhygoel hyn.” – Caroline Lucas, AS Plaid Werdd

“Mae'r llyfr hwn yn un gonest, personol ... Does dim rhaid dweud ei fod yn ddarn pwysig o hanes, ond yn bwysicach, mae'n dangos i fenywod a dynion eraill beth sy'n bosibl pan safwn gyda'n gilydd dros achos cyfiawn.” – Benjamin Zephaniah

The Hammer Blow, Andrea Needham

Peace News Press £10 ISBN 978 0946409 20 4

Ehediadau Niwclear yn Awyrofod Cymru

Mae Prydain yn ymfalchïo yn ei 'frawatalydd niwclear annibynnol' bondigrybyyll.

Ac eto, fel y gwydodd, bu Prydain a'r Unol Daleithau yn trosglwyddo gwybodaeth dechnegol, defnyddiau, a chydrrannau i'w defnyddio yn rhaglenni arfau niwclear ei gilydd ers mwy na 50 mlynedd.

Elfennau ymbelydrol

Daeth y mater i'r amlwg unwaith eto yn ddiweddar yn sgil cais Rhyddid Gwybodaeth gan lefarydd amddiffyn yr SNP, Brendan O'Hara AS. Cadarnhaoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) y bu 23 ehediad yn y pum mlynedd diweddar yn cario defnyddiau niwclear rhwng RAF Brize Norton (Lloegr) a Dover Airforce Base, Delaware (UDA). Deillir y cludwyd tritiwm,

plwtoniwm ac wraniwm wedi ei gyfoethogi, oll yn elfennau hanfodol mewn ergydion niwclear Trident.

Cynwysyddion heb eu trwyddedu

Bydd yr awyrennau'n glanio yn Delaware gan nad yw Comisiwn Rheoliadol Niwclear (NRC) yr UD yn caniatáu cludo defnyddiau niwclear yn yr awyr uwchlaw tiriogaeth yr UD mewn cynwysyddion 'heb eu trwyddedu'. Er mwyn derbyn trwydded NRC, rhaid i gynhwysydd fod mor gryf fel 'na fydd yn torri mewn profion cyfwerth â gwrthdrawiad a ffrwydrad awyren sy'n ehedeg yn uchel'. Ni all profion cynwysyddion yr Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol fodloni'r meini prawf hyn.

Yr ochr yma

Mae llwybrau hedfan yr awyrennau yn croesi cyron gogleddol Caerdydd i Fôr Hafren a Môr Iwerydd, neu'n mynd ymhellach i'r gogledd dros Gas-gwent, cyron gogleddol Casnewydd, Caerffili, Port Talbot ac Abertawe.

Amhosib dweud sut y byddai cynhwysydd yn gwrthsefyll gwrthdrawiad awyren yn syrthio o 10,000 o droedfeddi. Ffolineb llwyr yw gor-hedfan canolfannau poblogaeth mawr – neu, yn wir, unrhyw le – gyda deunydd ymbelydrol, boed yn blwtoniwm, wraniwm neu unrhyw ddeunydd ymbelydrol neu wenwynig arall.

Mae'r WA yn mynnu bod ehediadau niwclear yn ddiogel.

DYDDIADAU DYDDIADUR

Tan Fai y 1af

ABERYSTWYTH Amgueddfa

Ceredigion

Arddangosfa: Blwch Digi

Propaganda Digibox

Sain, ffilm a delweddau o ryfel a gwrthdaro cyfoes, a grewyd gan bobl ifanc ledled de-orllewin Cymru a ysbrydolwyd gan yr Arddangosfa 'Posters of the First World War: The Passion, Propaganda & Print'. Rhad ac am ddim, 01970 633 088

Ebrill 23 – 29

Y CLUN (Y Gororau) 9 Church Street SY7 8JW

Arddangosfa: A Peace Perspective: Stories & Thoughts from World War One. Sgwrs Agoriadol: Bruce Kent, Ebrill 23ain 2pm. Croeso i Bawb. Jenny 01547 540 748 jennywmcnd@gn.apc.org

Ebrill 26

30 Mlwyddiant Chernobyl

Mai 5

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol

Mai 15

POBMAN

Dydd Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol

I ddathlu'r rheini a wrthwynebodd – a'r rhai sy'n dal i wrthwynebu – rhyfel a militariaeth, gan wrthod codi arfau. Ym mis Ebrill 1916, protestiodd 200,000 o bobl yn erbyn cychwyn gorfodaeth filwrol yn Llundain y mis blaenorol. http://www.wri-irg.org/en/campaigns/co_day

Mai 18

YR WYDDGRUG A PHOBMAN

Dydd Ewyllys Da – a dydd coffáu'r gynghadled heddych gyntaf yn Yr

Hâg ym 1899.

Bydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a grewyd eleni gan fyfyrwyr Ysgol Gyfun Maes Garmon, wedi ei seilio ar thema 'dewis a chydwybod', yn cael ei perfformio yn Yr Wyddgrug ac yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir y Fflint. Er 1922, anfonwyd neges o heddwch ac ewyllys da o Gymru at bobl ifanc y byd. <https://tinyurl.com/UrddPeace-Goodwill>

Mai 24

POBMAN

Diwrnod Rhyngwladol Menywod dros Ddiarfogi

Mai 27

90 Mlwyddiant Pererindod Heddwch y Menywod

Ym 1926, cyfarfu 2,000 o fenywod o fro Eryri ym Mhen-y-groes ger Caernarfon, a gyda menywod o hanner cant o drefi a phentrefi, lansiwyd Pererindod Heddwch i Lundain. Prif nod y mudiad cenedlaethol yma oedd galw am sefydlu Cynghair y Cenhedloedd. <https://tinyurl.com/WalesWomensPeaceCrusades>

Mehefin 1

Y FFLINT Eisteddfod yr Urdd Neges Heddwch ac Ewyllys Da (Gweler Mai 18 uchod)

Mehefin 1 - 30

SAA BURGHFIELD (Berkshire, Lloegr)

Mis o Weithredu Uniongyrchol Trident Ploughshares

Mis o weithredu i ddangos bod y gwrthwynebiad i arfau niwclear yn parhau, beth bynnag fo penderfyniad San Steffan ynglŷn â

Trident; i gryfau ein penderfyniad a dal i bwyso. Cyflawnir gweithredoedd di-drais creadigol ac aflonyddgar y tu fewn a thu allan i SAA Burghfield ar wahanol ddyddiau gan wahanol grwpiau.

Gweler:

<https://tinyurl.com/MonthofActionBurghfield2016> a thudalen 3

Cysyllter ag Angie Zelter: reforest@gn.apc.org

Mehefin 3 6.00pm ar gyfer 7pm LLANDUDNO Canolfan Gymuned

Craig-y-Don, Ffordd y Frenhines LL30 1TE

Red Flag over Bermondsey - the story of Ada Salter - radical campaigner for human rights, socialist & pacifist. Theatr Journeyman

Dan nawdd Grŵp Heddwch Sir Conwy

Cysyllter â: David Mellor dvmellor2002@yahoo.co.uk

Mehefin 4 1.30pm ar gyfer 2pm

BAE COLWYN UCHAF Canolfan Gymuned Bryn Cadno LL29 6DW

Over the Top – drama am ddylanwad cynyddol y fyddin mewn cymdeithas. Theatr Journeyman

Dan nawdd Grŵp Heddwch Sir Conwy
Cysyllter â: David Mellor dvmellor2002@yahoo.co.uk

Mehefin 5 1.30pm ar gyfer 2.30pm

BAE COLWYN Tŷ Cwrdd y Crynwyr, Ffordd Erskine LL29 8EU

Feeding the Darkness Perfformiad sy'n taflu goleuni ar artaith gyda chaniatâd y wladwriaeth trwy stori, cerdd a chân. Theatr Journeyman
Dan nawdd Grŵp Heddwch Sir Conwy

◀ Cysyllter â: David Mellor
dvmellor2002@yahoo.co.uk

Mehefin 15

SAA BURGHFIELD

(Berkshire, Lloegr)

Gweithredu Uniongyrchol Trident Ploughshares Cymru

Bydd aelodau o Gôr Cochion
Caerdydd a'r Côr Gobaith ac eraill o
Gymru yn teithio dros Glawdd Offa
i brotestio yn ffatri arfau niwclear
Burghfield.

Cymerwch ran! Mehefin 16 yw
'Diwrnod yr Academyddion' –
felly gallech chi, academyddion
Cymru, gyflawni dwy weithred
uniongyrchol ar yr un pryd – ewch
amdani!

Cysyllter â Brian Jones:
brian.jones@phonecoop.coop
01792 830 330 neu Angie (uchod).

Gorffennaf 4

PRYDAIN

Gweithredoedd Streic Gyffredinol
Swyddi a Chyfiawnder
Cymdeithasol nid Bomiau! Gweler
#GeneralStrike

Gorffennaf 22 7.30pm

Pafiliwn Y RHYL

Cyngerdde Dengmlwyddiant ar
Hugain Chernobyl

Only Boys Aloud, Will Mealing,
fffidil, a Bardd Ieuencid Cymru,
Martin Daws. Gwesteion arbennig
o Belarws ac Wcráin hefyd.

Trefnwyd gan Chernobyl Children's
Lifeline (Dolen Arfordir y Gogledd
Cymru) a Gwasanaethau Ieuencid
Sir Ddinbych <https://tinyurl.com/Rhyl-ChernobylConcert>

Gorffennaf 28 – Awst 1

NEUADD BERRINGTON ger

Amwythig SY5 6HA
Gwersyll Haf Peace News

HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
**Ymgyrch Ddiarfog Niwclear
yng Nghymru (CND Cymru)**
golygydd:

Jill Gough
cyfiethydd:
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk
cynhyrchu a phostio:
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

**Os oes gennych unrhyw
ddyddiadau neu wybodaeth
– neu sylwadau – i'w
cynnwys yn y rhifyn nesaf,
anfonwch nhw i
heddwch@cndcymru.org**

**Cyhoeddir y rhifyn nesaf:
Haf 2016.**

*Nid yw cynnwys **heddwch** o
anghenraid yn adlewyrchu
barn neu bolisiau CND
Cymru. Rydym yn croesawu
dadl a thrafodaeth.
Anfonwch unrhyw sylwadau
neu gyfraniadau at y
golygydd.*

Awst 1 – 8

Y FENNI

Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy
a'r Cyffinau

Y Babell Heddwch

Angen help gan siaradwyr Cymraeg
a dysgwyr! Cysyllter â Brian Jones
brian.jones@phonecoop.coop
01792 830 330

Awst 6

POBMAN

Hiroshima – Byth Eto!

Digwyddiadau coffa ledled Cymru

Awst 9

POBMAN

Nagasaki - Byth Eto!

Digwyddiadau coffa ledled Cymru

CYSYLLTIADAU

CND

CYMRU



**Mae CND Cymru'n
ymgyrchu ochr yn ochr
â llu fudiadau eraill yng
Nghymru a phedwar
ban y byd i gael gwared
o arfau dinistr torfol o
Brydain a'r byd, a thros
heddwch a chyfiawnder i
bobl a'r amgylchedd.**

CYSYLLTIADAU

Brian Jones

01792 830 330
swanseacond@btinternet.com

Duncan Rees

07774 268 371
Duncan.rees01@gmail.com

George Crabb

01446 774 452
georgecrabb@phonecoop.coop

trysorydd, aelodaeth ac aelodau:

CND Cymru
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

ysgrifenydd cenedlaethol:

Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
twitter: @cndcymru
www.cndcymru.org
facebook: cndcymru